


# Camymddwyn ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru: cyfres arholiadau Haf 2018



## Uchafbwyntiau

13 Rhagfyr 2018

**Ffigur 1: Nifer y Cosbau a Roddwyd i Fyfyrrwyr**




Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2014 i 2017 - Ofqual

Rhoddwyd 210 o gosbau i fyfyrwyr yn ystod haf 2018, cynnydd o 17.3% o gymharu â 180 o gosbau yn 2017.

Yn 2018, rhoddwyd tua un gosb fesul bob 5,000 o gofrestrïadau.

**Ffigur 2: Rhesymau dros Gosbi Myfyrwyr**



Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

Ffonau symudol yw'r rheswm mwyaf cyffredin dros roi cosb o hyd, gyda 45.7% o'r cosbau a roddwyd yn 2018 yn gysylltiedig â myfyrwyr yn mynd â ffôn symudol gyda nhw i'r ystafell arholi.

## Y datganiad hwn

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cyflwyno'r ffigurau ar y cosbau a roddwyd gan fyfyrwyr, staff ysgolion neu golegau, ac achosion o gamymddwyn gan ysgolion neu golegau, a'r troseddau y cyflwynwyd y cosbau hynny ar eu cyfer, ar gyfer arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 yng Nghymru. Dyma'r datganiad ystadegol cyntaf y mae Cymwysterau Cymru wedi'i gyhoeddi mewn perthynas â chamymddwyn. Yn flaenorol, cyhoeddwyd yr ystadegau hyn gan Ofqual.

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	<a href="#">2</a>
Ystadegau.....	<a href="#">3</a>
Rhestr termau.....	<a href="#">7</a>
Nodiadau cefndir.....	<a href="#">9</a>

Ystadegydd: Hannah Williams 01633 373 292 [ystadegau@cymwysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cymwysteraucymru.org)

Ymholiadau gan y cyfryngau: Alan Morris 01633 373 216 [cyfathrebu@cymwysteraucymru.org](mailto:cyfathrebu@cymwysteraucymru.org)



# CYFLWYNIAD

Mae Cymwysterau Cymru yn rheoleiddio cymwysterau, ac eithrio graddau, yng Nghymru.

O flwyddyn academaidd 2017-18, rydym yn casglu ac yn adrodd ar ddata yng Nghymru ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Cyn blwyddyn academaidd 2017-18, roedd data ar gyfer Cymru yn cael eu casglu a'u cyhoeddi gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr.

Yn y datganiad hwn, rydym yn cyflwyno data ar nifer yr achosion o gamymddwyn mewn perthynas ag arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch yng Nghymru ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018. Mae'r ffigurau yn cynrychioli nifer yr achosion o gamymddwyn, wedi'i thalgrynnu i'r 5 agosaf er mwyn sicrhau cyfrinachedd, a gyflwynwyd gan gyrff dyfarnu erbyn 15 Hydref 2018, gan adlewyrchu'r sefyllfa ar 14 Tachwedd 2018. Mae'r cymariaethau a wneir yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Ofqual ar gyfer y cyfnod o haf 2014 hyd at haf 2017.

## CAMYMDDWYN

Caiff unrhyw achos o dorri'r rheoliadau a allai danseilio uniondeb arholiad ei ystyried yn achos o gamymddwyn. Mae enghreifftiau o gamymddwyn yn cynnwys ymdrechion gan fyfyrwyr i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod arholiad, myfyrwyr yn mynd â deunyddiau anawdurdodedig i mewn i arholiad gyda nhw, ac aelodau o staff ysgol neu goleg yn methu â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r bwrdd arholi. Mae hefyd yn cynnwys camweinyddu, a ddiffinnir gan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau (JCQ) fel methiant gan aelodau o staff ysgol neu goleg i gydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer asesiadau o dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau diarholiad, neu achosion o gamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau a/neu wrth ymdrin â dogfennau megis papurau cwestiynau ar gyfer arholiadau, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau ac ati.

Mae'n ofynnol gennym i fyrddau arholi sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i ymdrin ag achosion o gamymddwyn gan fyfyrwyr, staff ysgolion neu golegau neu eraill sy'n gysylltiedig â'r broses o ddarparu cymhwyster. Mae'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn cyhoeddi polisiâu a chanllawiau<sup>1</sup> ar gamymddwyn sy'n nodi gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag amheuon o gamymddwyn. Ceir rhagor o wybodaeth am gamymddwyn a'n gofynion yn y [nodiadau cefndir](#).

---


<sup>1</sup> <https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

# YSTADEGAU

## CAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR

### A YW NIFER YR ACHOSION O GAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR YN CYNFYDDU?

**Ffigur 3: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr fel cyfran o gyfanswm y cofrestriadau, o haf 2014 hyd at haf 2018**




Rhoddwyd 210 o gosbau i fyfyrwyr am gamymddwyn yn ystod haf 2018, o gymharu â 180 yn ystod haf 2017. Rhoddwyd tua un gosb i fyfyrwr fesul pob 5,000 o gofrestriadau ar gyfer uned/cydran yn ystod haf 2018 (0.020% o'r holl gofrestriadau). Mae'r gyfran wedi cynyddu ers haf 2017, lle y rhoddwyd un gosb fesul pob tua 6,500 o gofrestriadau (0.015%).

Rhoddwyd cyfran uwch o gosbau mewn perthynas â chymwysterau TGAU nag UG a Safon Uwch. Roedd 86.7% o'r holl gosbau a roddwyd yn ymwneud â chymwysterau TGAU, ac roedd 81.1% o'r holl gofrestriadau ar gyfer unedau/cydrannau yn ystod haf 2018 ar gyfer cymwysterau TGAU.

Rhoddwyd 180 o gosbau yn ymwneud â chymwysterau TGAU, sef 0.022% o gyfanswm


yr holl gofrestriadau TGAU (835,810), sy'n cyfateb i tua un gosb fesul 4,500 o gofrestriadau. Mae'r 30 o gosbau a roddwyd ar gyfer asesiadau UG a Safon Uwch yn cynrychioli 0.014% o'r holl gofrestriadau UG a Safon Uwch (194,510), sy'n golygu y rhoddwyd tua un gosb fesul pob 7,000 o gofrestriadau.

**Ffigur 4: Nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr fel canran o gyfanswm y cofrestriadau yn ôl lefel y cymhwyster, haf 2017 o gymharu â haf 2018**



*Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual*

**Ffigur 5: Nifer y cosbau a roddwyd fesul myfyriwr, haf 2017 o gymharu â haf 2018**



Yn 2018, cafodd cyfanswm o 205 o fyfyrwyr unigol gosbau am gamymddwyn, o gymharu â 175 yn 2018. Un drosedd a gyflawnwyd gan y rhan fwyaf o'r myfyrwyr a gafodd gosb (96.6%) a chyflwynwyd un gosb iddynt. Cyflawnodd rhai myfyrwyr ddwy drosedd, ac felly cyflwynwyd dwy gosb

iddynt. Ni chyflawnodd unrhyw fyfyrwyr fwy na dwy drosedd.


## BETH YW'R MATH MWYAF CYFFREDIN O GAMYMDDWYN GAN FYFYRWYR?

**Tabl 1: Nifer y cosbau a roddwyd fesul categori camymddwyn, haf 2017 o gymharu â haf 2018**

Categori camymddwyn	Nifer y cosbau a roddwyd		Canran o gyfanswm y cosbau a roddwyd	
	2017	2018	2017	2018
Ffonau symudol	80	95	44.7%	45.7%
Siarad	30	25	15.6%	11.9%
Ymddygiad aflonyddgar	20	25	12.3%	11.9%
Deunyddiau amhriodol	20	10	11.2%	5.7%
Deunyddiau anawdurdodedig eraill	10	15	5.0%	7.1%
Llên-ladrad	5	10	2.8%	3.8%
Rhesymau eraill	15	30	8.4%	13.8%
<b>Cyfanswm</b>	<b>180</b>	<b>210</b>	<b>100.0%</b>	<b>100.0%</b>

Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual

**Ffigur 6: Cyfran y cosbau a roddwyd fesul categori camymddwyn, haf 2017 o gymharu â haf 2018**



Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2017 - Ofqual


Ffonau symudol yw'r drosedd gamymddwyn fwyaf cyffredin y rhoddwyd cosb ar ei chyfer o hyd, ac mae 45.7% o'r holl gosbau a roddwyd yn ymwneud â'r drosedd hon. Ymddygiad aflonyddgar a siarad yn ystod arholiad oedd y troseddau mwyaf cyffredin ar ôl ffonau symudol, sef 11.9% yr un. Gellir priodoli'r

cynnydd mewn "rhesymau eraill" yn bennaf i gynnydd yn y cosbau a roddwyd am "gopiö gan ymgeisydd arall, gan gynnwys camddefnyddio TGCh", a gododd o 0 cosb yn 2017 i 10 yn 2018.


Colli marciau yw'r gosb fwyaf cyffredin a roddir o hyd. Rhoddwyd 125 o gosbau colli marciau yn ystod haf 2018, sef 58.6% o'r holl gosbau a roddwyd.

Cafwyd cynnydd o 77.1% yn nifer y rhybuddion a roddwyd, gan gynyddu o 35 yn 2017 i 60 yn 2018.

**Ffigur 7: Nifer y cosbau a roddwyd fesul math o gosb, haf 2014 hyd at haf 2018**



**Ffigur 8 : Mathau o gosbau a roddwyd i fyfyrwyr fesul categori camymddwyn, haf 2018**



Yn ogystal â'r gosb a roddwyd fwyaf yn gyffredinol, colli marciau hefyd oedd y gosb a roddwyd amlaf ym mhob categori camymddwyn. Cyflwyno ffôn symudol mewn ystafell arholi oedd y drosedd a oedd yn fwyaf tebygol o arwain at rybudd, gyda 38.5% o'r holl droseddau a oedd yn ymwneud â ffôn symudol yn cael rhybudd, cynnydd o 22.5% yn 2017. Deunyddiau anawdurdodedig eraill (h.y. deunyddiau anawdurdodedig ac eithrio ffôn symudol) oedd y categori a oedd fwyaf tebygol o arwain at golli'r cyfle i gyfuno neu ardystio.

# ACHOSION O GAMYMDDWYN GAN GANOLFANNAU A STAFF CANOLFANNAU

## PA MOR GYFFREDIN YW ACHOSION O GAMYMDDWYN GAN GANOLFANNAU A STAFF CANOLFANNAU?

**Tabl 2: Cyfanswm nifer y cosbau a roddwyd i ganolfannau a staff canolfannau, haf 2014 hyd at haf 2018**

<b>Math o gamymddwyn</b>	<b>2014</b>	<b>2015</b>	<b>2016</b>	<b>2017</b>	<b>2018</b>
Staff ysgolion neu golegau	5	10	5	10	15
Ysgol neu goleg	5	*	5	*	10

*Ffynhonnell: 2018 - Casgliad data camymddwyn gan gyrff dyfarnu, Cymwysterau Cymru; 2014 i 2017 - Ofqual*

Rhodddwyd 15 o gosbau i 10 aelod unigol o staff ysgol neu goleg am gamymddwyn yn ystod haf 2018. Un drosedd a gyflawnwyd gan bob unigolyn a gafodd gosb, ond cafodd rhai aelodau o staff fwy nag un gosb am drosedd unigol.

Rhodddwyd 10 cosb i ysgolion a cholegau yn ystod haf 2018. Mae'r nifer wedi cynyddu o gymharu â haf 2017, pan roddwyd llai na phum cosb. Rhybuddion ysgrifenedig oedd y rhan fwyaf o'r cosbau a roddwyd i ganolfannau.

# RHESTR TERMAU

## Corff dyfarnu

Sefydliad sy'n datblygu cymwysterau, yn nodi ac yn monitro asesiadau ac yn cyflwyno dyfarniadau i ddysgwyr, yn cydnabod y deilliannau dysgu yn ffurfiol (gwybodaeth, sgiliau a/neu gymwyseddau), yn dilyn gweithdrefn asesu a dilysu. Mewn rhannau eraill o'r DU, gelwir y rhain yn sefydliadau dyfarnu neu fyrddau arholi.

## Camymddwyn

Ystyr camymddwyn yw unrhyw weithred, diffyg neu arfer sy'n torri rheoliadau corff dyfarnu, neu sy'n gwneud un neu'r ddau o'r canlynol:

- digwyddiad sy'n peryglu, yn ceisio peryglu neu a allai beryglu'r broses asesu, uniondeb unrhyw gymhwyster neu ddilysrwydd canlyniad neu dystysgrif;
- cael effaith andwyol ar awdurdod, enw da neu hygrededd unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan neu unrhyw swyddog, cyflogai neu asiant unrhyw gorff dyfarnu neu ganolfan.

Mae camymddwyn yn cynnwys camweinyddu a methu â chydymffurfio â'r rheoliadau. Mae methiant gan ganolfan i roi gwybod i gorff dyfarnu am bob honiad o gamymddwyn neu amheuan o gamymddwyn, i ymchwilio i'r honiadau hynny ac i adrodd arnynt yn achos o gamymddwyn ynddo'i hun. Mae methu â gweithredu fel sy'n ofynnol gan gorff dyfarnu a methu â chydweithredu mewn ymchwiliad gan gorff dyfarnu hefyd yn achos o gamymddwyn.

Ceir rhagor o wybodaeth am gamymddwyn a manylion y troseddau a gaiff eu hystyried yn gamymddwyn a'r cosbau a roddir yng nghanllawiau camymddwyn y Cyd-bwyllgor Cymwysterau<sup>2</sup>.

## Camweinyddu

Methu â chydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cynnal asesiadau o dan reolaeth, gwaith cwrs, arholiadau ac asesiadau diartholiad, neu achosion o gamymddwyn wrth gynnal arholiadau/asesiadau a/neu wrth ymdrin â phapurau cwestiynau ar gyfer arholiadau, sgriptiau ymgeiswyr, taflenni marciau, cofnodion asesu cyfun, canlyniadau a ffurflenni hawlio tystysgrifau ac ati.

## TGAU

Mae cymwysterau Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd ar gael mewn amrywiaeth eang o bynciau. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 cyffredinol ar gyfer pobl ifanc 14-16 oed yng Nghymru.

---

<sup>2</sup> <https://www.jcq.org.uk/exams-office/malpractice>

Gellir eu defnyddio fel sail i astudio neu hyfforddi ar lefel uwch, neu i gael mynediad uniongyrchol i gyflogaeth.

### **Safon Uwch**

Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch, a elwir hefyd yn TAG Safon Uwch. Cymwysterau a gaiff eu hastudio, ar ôl cymwysterau TGAU, mewn amrywiaeth o bynciau. Dysgwyr 16-18 oed sydd fel arfer yn dilyn cwrs astudio dwy flynedd sy'n eu hastudio fel arfer. Maent yn cael eu defnyddio fel sail i dderbyn myfyrwyr i addysg uwch, hyfforddiant pellach neu fynediad i gyflogaeth.

### **Uwch Gyfrannol (UG)**

Cymhwyster sy'n ffurfio rhan gyntaf cymhwyster Safon Uwch. Gellir ei gymryd fel cymhwyster ar wahân. Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, mae'n cyfrannu at ganlyniad y Safon Uwch. Yn Lloegr, ni all cymwysterau UG gyfrannu at y Safon Uwch.

### **Canolfan**

Corff sy'n cyflenwi asesiadau (a gweithgareddau eraill o bosibl) i ddysgwyr ar ran corff dyfarnu. Fel arfer, sefydliadau addysg, darparwyr hyfforddiant neu gyflogwyr yw'r canolfannau hyn.

### **Cymhwyster**

Dyfarniad a wneir gan gorff dyfarnu i ddangos y cymhwysedd a gyflawnwyd gan ddysgwr.



# NODIADAU CEFNDIR

Ar 21 Tachwedd 2017, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Orchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 a enwodd Cymwysterau Cymru yn un o'r cyrff sydd o fewn cwmpas Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007. Mae Cymwysterau Cymru yn gweithredu mewn cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer Awdurdod Ystadegau'r DU ar gyfer Ystadegau Swyddogol<sup>3</sup> ac mae wedi cyhoeddi'r datganiad ystadegol hwn fel Ystadegau Swyddogol.

## Camymddwyn

Mae'r cymwysterau a gwmpesir gan y datganiad hwn wedi'u rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru. Mae'r gofynion y mae angen i'r cyrff dyfarnu eu bodloni wedi'u nodi yn yr Amodau Cydnabod Safonol<sup>4</sup>. Nodir y gofynion mewn perthynas â chamymddwyn yn amod A8, sy'n nodi'r canlynol:

Rhaid i gorff dyfarnu gymryd pob cam rhesymol i atal unrhyw achosion o gamymddwyn neu gamweinyddu wrth ddatblygu, cyflenwi a dyfarnu cymwysterau y mae'n eu darparu neu y mae'n bwriadu eu darparu.

Mae camymddwyn yn cynnwys unrhyw achos o dorri'r rheoliadau a allai danseilio uniondeb arholiad. Mae enghreifftiau o gamymddwyn yn amrywio o ymdrechion bwriadol gan ymgeiswyr i gyfathrebu â'i gilydd yn ystod arholiad i fethiannau anfwriadol gan staff ysgolion neu golegau i gydymffurfio â chyfarwyddiadau'r corff dyfarnu.

Mae'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff dyfarnu ymchwilio i effaith unrhyw achos o gamymddwyn lle y bydd wedi cadarnhau bod achos o gamymddwyn neu gamweinyddu wedi digwydd, ac i reoli'r effaith honno. Rhaid iddo gymryd camau i atal achosion o'r fath rhag digwydd eto a chymryd camau sy'n gymesur â difrifoldeb a chwmpas y digwyddiad yn erbyn y rheini sy'n gyfrifol.

Yn ogystal, mae'r amodau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff dyfarnu sicrhau bod gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith ganddynt mewn perthynas ag ymchwilio i amheuon o gamymddwyn neu gamweinyddu. Mae hefyd yn ofynnol i'r cyrff dyfarnu gynnal adolygiadau rheolaidd o'r trefniadau sydd ar waith gan ganolfannau ar gyfer atal achosion o gamymddwyn a chamweinyddu ac ymchwilio iddynt.

---

<sup>3</sup> <https://www.statisticsauthority.gov.uk/code-of-practice/>

<sup>4</sup> <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/>

Gall cyrff dyfarnu ymchwilio i unrhyw achosion honedig neu achosion a amheuir o gamymddwyn naill ai mewn cydrannau a gaiff eu hasesu'n fewnol neu'n allanol a chymryd camau gweithredu mewn perthynas â'r ymgeiswyr a'r ysgolion neu'r colegau dan sylw er mwyn sicrhau uniondeb yr asesiadau, neu er mwyn atal achosion o gamymddwyn rhag digwydd eto. Rhaid i ysgolion neu golegau roi gwybod am bob achos o gamymddwyn i'r cyrff dyfarnu perthnasol a chydweithredu mewn ymchwiliadau dilynol. Caiff pob achos o gamymddwyn, boed yn achos y rhoddyd gwybod amdano gan yr ysgol neu'r coleg neu a nodwyd gan y corff dyfarnu, ei ystyried a'i farnu ar sail unigol gan ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael, a dylai'r canlyniad fod yn gymesur â difrifoldeb yr achos o gamymddwyn fel y pennir gan y corff dyfarnu.

### **Camymddwyn gan ymgeiswyr**

Fel arfer, bydd cyrff dyfarnu yn cyflwyno sancsiynau a chosbau ar gyfer ymgeiswyr y'u ceir yn euog o gamymddwyn. Gall y sancsiynau a'r cosbau hyn gynnwys rhybudd ysgrifenedig, dyfarnu marciau amcangyfrifedig, eu datgymhwyso o gydran o asesiad, neu eu datgymhwyso o gymhwyster cyfan. Bydd y gosb a osodwyd yn amrywio gan ddibynnu ar natur a difrifoldeb y drosedd.

### **Camymddwyn gan staff ysgolion neu golegau**

Fel arfer, bydd cyrff dyfarnu hefyd yn cyflwyno sancsiynau a chosbau ar gyfer staff ysgolion neu golegau y'u ceir yn euog o gamymddwyn. Gall y sancsiynau a'r cosbau hyn gynnwys rhybudd ysgrifenedig am oblygiadau ailadrodd y drosedd, gosod amodau arbennig ar gyfranogiad unigolyn mewn arholiadau ac asesiadau yn y dyfodol, ei gwneud yn ofynnol i unigolyn ymgymryd â hyfforddiant neu fentora penodol er mwyn gallu ymwneud ag arholiadau yn y dyfodol, neu wahardd unigolyn am gyfnod penodedig rhag ymwneud mewn unrhyw ffordd â'r broses arholiadau ac asesiadau. Dim ond mewn perthynas â chyfranogiad aelod o staff yn y broses o weinyddu eu harholiadau y gall cyrff dyfarnu gyflwyno sancsiynau ac ni allant gyflwyno sancsiynau mewn perthynas â chyflogaeth aelod o staff. Cyfrifoldeb canolfannau fydd penderfynu p'un a fyddai unrhyw sancsiwn ehangach yn briodol (ond nid yw hynny wedi'i gynnwys yn y ffigurau a nodir yn y ddogfen hon).

### **Camymddwyn gan ysgolion neu golegau**

Rhaid i gyrrff dyfarnu ymchwilio i achosion lle y bydd ysgolion neu golegau a'u staff yn rhan o achos o gamymddwyn a, lle y bo angen, gyflwyno sancsiynau. Gall achosion o gamymddwyn gan staff ysgolion neu golegau amrywio o gamau gweithredu y bwriadwyd iddynt roi mantais annheg i ymgeiswyr mewn arholiad neu asesiad i achos o anwybyddu'r rheoliadau asesu neu eu cymhwyso mewn modd amhriodol. Lle ceir tystiolaeth bod yr achos o gamymddwyn yn deillio o fethiant

rheoli difrifol, gall corff dyfarnu gyflwyno sancsiynau yn erbyn yr adran gyfan neu'r ysgol neu'r coleg.

### **Ffynhonnell Data**

Mae'r cyrff dyfarnu sy'n darparu cyrsiau TGAU, UG a Safon Uwch wedi cyflwyno gwybodaeth i Cymwysterau Cymru am nifer yr achosion o gamymddwyn ar gyfer pob cymhwyster a oedd ar gael yn ystod haf 2018. Dim ond ar gyfer canolfannau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru y mae'r data camymddwyn a gyflwynwyd yn berthnasol, ni waeth pa fath o ganolfan ydyw. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys dadansoddiadau o gamymddwyn gan fyfyrwyr, staff ac ysgolion/colegau yn ôl y math o gamymddwyn a'r cosbau a roddir mewn ymateb i'r camymddwyn hwnnw.

### **Cyfyngiadau'r data**

Mae camgymeriadau posibl yn y wybodaeth a ddarparwyd gan gyrff dyfarnu. Felly, ni all Cymwysterau Cymru sicrhau bod y wybodaeth a gafwyd yn gywir. Mae Cymwysterau Cymru yn cymharu'r data dros amser ac yn gwirio ar gyfer problemau systematig. Cynhelir gweithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb y data a'u herio neu eu cwestiynu, lle bo angen. Mae Cymwysterau Cymru yn rheoli'r broses hon yn barhaus drwy wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darparwyr data yn glir ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ganddynt ac yr ymgynghorir yn llawn â nhw yn ystod y cyfnodau cynllunio cychwynnol ac unrhyw gyfnodau newid dilynol;
- Atgoffa pob darparwr (os yw'n briodol) bod yn rhaid i'r holl ddata fod yn hollol gywir fel amod eu bod yn cael eu rheoleiddio;
- Bod yn wiliadwrus o newidiadau annisgwyl yn y data a gyflwynir drwy gymharu ffurflenni unigol dros amser gan yr un darparwr;
- Herio unrhyw ganlyniadau annisgwyl gyda'r darparwyr data.

Gellir gohirio'r cyhoeddiad os nad ystyrir bod yr ystadegau yn addas at y diben.

Mae data wedi'u casglu ar adeg briodol pan fo'n rhesymol gyflawn, sef 15 Tachwedd 2018 ar gyfer cyfres data haf 2018 yn y datganiad hwn.

### **Cymariaethau**

O 2017-18, bydd cyrff dyfarnu yn cyflwyno data cymwysterau cyffredinol i Cymwysterau Cymru yn hytrach nag Ofqual. Dylid cymryd gofal wrth ddehongli cymariaethau â data Ofqual hanesyddol.

### **Cwmpas Daaryddol**

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno data ar nifer y cofrestrïadau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch ar gyfer cyfres arholiadau haf 2018 ar gyfer canolfannau sydd wedi'u

lleoli yng Nghymru. Nid yw'r datganiad hwn yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a gaiff eu sefyll y tu allan i Gymru.

### **Diwygiadau**

Unwaith y byddant wedi'u cyhoeddi, nid yw data ar nifer y cofrestriadau fel arfer yn cael eu hadolygu, er y gall datganiadau dilynol gael eu hadolygu i gynnwys data hwyr neu gywiro camgymeriad.

### **Cyflawnrwydd y data**

Mae cyrff dyfarnu yn anfon data camymddwyn ar gyfer yr holl gymwysterau rheoleiddiedig a gaiff eu dosbarthu yn TGAU, UG a Safon Uwch, i Cymwysterau Cymru. Mae Cymwysterau Cymru yn cysylltu ag unrhyw gorff dyfarnu nad yw'n dychwelyd cyfres lawn o ddata o fewn y cyfnod casglu, i wneud yn siŵr bod y data mor gyflawn â phosibl.

### **Talgrynnu a Chyfrinachedd**

Er mwyn diogelu cyfrinachedd, ac yn unol â pholisi interim allbynnau ystadegol Cymwysterau Cymru, caiff yr holl ffigurau ar gyfer cofrestriadau eu talgrynnu. Yn y sylwebaeth a'r tablau, maent wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Rhoddir \* yn lle ffigurau llai na 5 ond mwy na 0. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn datgelu ymgeisydd unigol. Mae'r holl ganrannau o fewn y sylwadau yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu'n annibynnol ac felly mae'n bosibl na fyddant yn symio i'r cyfanswm.

### **Defnyddwyr yr ystadegau hyn**

Mae'r ystadegau hyn yn debygol o fod o ddiddordeb i Cymwysterau Cymru, Ofqual, cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru. Mae defnyddwyr eraill yn cynnwys swyddogion polisi'r llywodraeth, academyddion, ymchwilwyr a'r cyhoedd. Rydym yn croesawu adborth gan ddefnyddwyr er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o bwy yw ein defnyddwyr dros amser. Mae Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r ystadegau hyn er mwyn sicrhau bod cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn addas at y diben ac yn bodloni safonau disgwyliedig.

### **Ystadegau a chyhoeddiadau cysylltiedig**

Mae nifer o ddatganiadau ystadegol yn ymwneud â'r datganiad hwn, gan gynnwys y canlynol:

- Ein datganiad 'Cofrestriadau dros dro ar gyfer arholiadau haf 2018 yng Nghymru: TGAU, UG, Safon Uwch, Tystysgrif Her Sgiliau, a thystysgrifau Lefel 1/Lefel 2'<sup>5</sup>

---

<sup>5</sup> <http://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/cofrestrriadau-dros-dro-haf/>

- Ein datganiad 'Cofrestriadau a chofrestriadau hwyr ar gyfer TGAU a Safon Uwch yng Nghymru: blwyddyn academaidd 2017-18'<sup>6</sup>
- Y datganiad 'Malpractice for GCSE and A level: summer 2018 exam series', a gyhoeddwyd gan Ofqual<sup>7</sup>
- Y datganiad 'Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion'<sup>8</sup> blynyddol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Datganiad 'Canlyniadau arholiadau yng Nghymru, 2017/18'<sup>9</sup>, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

### **Gwybodaeth ddefnyddiol**

Mae rhestr termau ar gael ar dudalen 7 i'ch helpu i ddehongli'r datganiad hwn. Ceir gwybodaeth am gyhoeddiadau yn y dyfodol ar wefan<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru ac ar ein gwefan<sup>11</sup> ni. Mae cofrestr QiW<sup>12</sup> yn rhoi gwybodaeth am gymwysterau cymeradwy a dynodedig sy'n gymwys i gael arian cyhoeddus yng Nghymru.

### **Y diweddariad nesaf**

Rhagfyr 2019.

### **Adborth gan ddefnyddwyr**

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn y gellir ei ddarparu drwy e-bost i [ystadegau@cywysteraucymru.org](mailto:ystadegau@cywysteraucymru.org).

*(h) (2018) Rhoddir caniatâd i'w atgynhyrchu ar yr amod y cyfeirir at Cymwysterau Cymru fel y ffynhonnell wreiddiol.*

---

<sup>6</sup> Gweler <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/2-entries-and-late-entries-for-gcse-and-a-level-in-wales-2017-18-academic-year/>

<sup>7</sup> <https://www.gov.uk/government/statistics/malpractice-for-gcse-and-a-level-summer-2018-exam-series>

<sup>8</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?lang=enhttp://gov.wales/statistics-and-research/schools-census/?lang=cy>

<sup>9</sup> <https://gov.wales/statistics-and-research/examination-results/?skip=1&lang=cy>

<sup>10</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/?upcoming=true&lang=cy>

<sup>11</sup> <https://qualificationswales.org/cymraeg/ein-gwaith/ymchwil-ac-ystadegau/upcoming-publications/>

<sup>12</sup> <https://www.qiw.wales/?lang=cy>